



Ein cyf/Our ref: MA-RE-2910-20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

8 Medi 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud wrth sicrhau cymhwysedd ar gyfer cyflwyno treth ar dir gwag yng Nghymru. Ym mis Mawrth, ar ôl i gyfarfod Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd gytuno bod cynigion Llywodraeth Cymru wedi cael eu datblygu ddigon i symud ymlaen i gam nesaf y broses, anfonodd Llywodraeth Cymru gais ffurfiol i Lywodraeth y DU ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

Rwyf bellach wedi cael ymateb gan Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys, sy'n dweud y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion cyn y gellir bwrw ymlaen â'n cais ffurfiol. Rwy'n siomedig gyda'r ymateb hwn, sy'n gam yn ôl, o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n llawn ac yn agored â swyddogion Trysorlys Ei Mawrhydi dros y ddwy flynedd diwethaf, gan ddarparu nifer o ddogfennau i Lywodraeth y DU a oedd yn rhoi sylw i'r meini prawf a nodwyd yn y Papur Gorchymyn, gan gynnwys y senarios lle byddai treth yn debygol o fod yn gymwys a lle byddai'n debygol o beidio â bod yn gymwys; pwy fyddai targed arfaethedig unrhyw dreth; rhyngweithiadau posibl â threthi sydd wedi'u datganoli a threthi a gedwir yn ôl, sylfeini trethu a referniw trethi; ac effeithiau ar system drethi'r DU yn sgil datganoli'r pŵer hwn. Arweiniodd y gwaith hwn at bapur ar y cyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi a argymhellodd y dylai'r deunydd a oedd wedi'i ddarparu hyd at y pwynt hwnnw fod yn sail ar gyfer cais ffurfiol ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU.

Rwyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys i fynegi fy siom gyda'i ymateb. Mae'n glir bod ein profiad hyd yma o symud drwy'r broses hon yn bwrw amheuaeth ar effeithiolrwydd y system i ddatganoli cymhwysedd trethu pellach i Gymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Rwyf hefyd yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive style with a period at the end.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd